

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **AIL GYFARFOD BLYNYDDOL AR HUGAIN Y CYNGOR**

Cofnodion yr Ail Gyfarfod Blynyddol ar Hugain o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 17<sup>eg</sup> Mai 2017 am 4.00.

#### **YN BRESENNOL**

##### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**

L. M. Adams	H. Fychan	W. Owen
S. Belzak	E. George	D. Owen-Jones
D. R. Bevan	D. Grehan	S. Pickering
H. Boggis	M. Griffiths	S. Powderhill
J. Bonetto	J. Harries	M. J. Powell
S. A. Bradwick	G. Holmes	S. M. Powell
J. Brencher	L. Hooper	S. Rees-Owen
A. Calvert	G. E. Hopkins	A. Roberts
G. Caple	P. Howe	J. Rosser
A. Chapman	G. W. Hughes	R. Smith
A. G. Cox	J. James	G. Stacey
A. Crimmings	P. Jarman	E. Stephens
J. L. Cullwick	G. Jones	M. Tegg
J. R. Davies	K. L. Jones	G. P. Thomas
A. Davies-Jones	L. Jones	W. Treeby
L. De Vet	W. Jones	R. K. Turner
M. Diamond	R. Lewis	L. G. Walker
J. Elliott	W. Lewis	M. O. Weaver
S. Evans	C. Leyshon	M. Webber
S. M. Evans-Fear	D. Macey	G. D. G. Williams
M. Fidler Jones	A. Morgan	D. H. Williams
M. Forey	K. Morgan	J. Williams
A. S. Fox	S. Morgans	T. Williams
	M. Norris	

##### **Swyddogion oedd yn Bresennol**

- Mr. C. Bradshaw – Prif Weithredwr
- Mr. C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen,  
Mr. G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a  
Gwasanaethau i Blant
- Mr. C. B. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Mr. T. Wilkins – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
- Mr. C. Hanagan – Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Ms. K. May - Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

## **1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am gollï'r cyfarfod oddi wrth G. R. Davies, S. Rees, E. Webster, C. J. Willis ac R. Yeo

## **2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Doedd dim unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn y Cyfarfod mewn perthynas â'r agenda.

## **3. SYLWADAU'R MAER SY'N YMDDEOL**

Anerchodd y Maer sy'n ymddeol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis, y Cyngor am ei flwyddyn yn y swydd. Diolchodd i Aelodau o'r Cyngor blaenorol, a'r Cyngor newydd hwn hefyd, am roi iddo ef a'i Gyfar, Jamie, yr anrhydedd o wasanaethu Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis ei fod yn falch o gael ei eni a'i fagu yn Rhondda Cynon Taf a'i fod wedi gweithio yn yr ardal, ac taw'r balchder hwn oedd wedi'i gynnal yn ystod ei flwyddyn yn y swydd.

Dymunai'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis nodi ar gof a chadw ei ddiolch am y cymorth a chefnogaeth a roddwyd gan ei Gyfar, Jamie, yn ystod y flwyddyn, ac hefyd i'w Ysgrifenyddes, Ann, a'i Yrrwr, Steve.

Roedd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis yn falch i ddatgan fod bron £20,000 wedi'u codi hyd yn hyn ar gyfer y pump elusen o'i ddewis.

Wrth ymateb i hyn, talodd Aelodau deyrnged i'r Maer sy'n ymddeol, gan ei gymeradwyo a'i ganmol am ei holl waith ac ymdrechion caled yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

## **4. ETHOL MAER CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF AM FLWYDDYN 2017/2018 Y CYNGOR**

**PENDERFYNWYD** – ethol y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Tegg yn Faer y Fwrdeistref Sirol am Flwyddyn 2017-2018 y Cyngor.

Yn dilyn ethol y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Tegg, cyflwynodd y Maer sy'n gadael y swydd Gadwyn ei Swydd iddi.

Yna fe gyflwynwyd Cadwyn wedyn i Gyfar y Maer, Mr. Larry Barclay.

Ar ôl cymryd y Gadair, diolchodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Tegg i'r Aelodau am eu cymorth, eu cefnogaeth. a'u hyder wrth ei hethol yn Faer y Fwrdeistref Sirol, a datganodd y byddai hi'n ymgymryd â'r swyddogaeth â balchder, ac y byddai hi yn llysgennad da. Yna fe dalodd hi deyrnged wedyn i'r Maer sy'n gadael y swydd.

Yn fe gyhoeddodd y Maer ei dewis elusennau ar gyfer y flwyddyn, sef:-

- Cymdeithas Alzheimer Cymru
- Cŵn Tywys Cymru
- Ysbyty Gofal Lliniarol Y Bwthyn, Pontypridd
- Cyfeillion yr Anifeiliaid Cymru, gynt Cyfeillion yr Anifeiliaid Rhondda Cynon Taf

Cyflwynodd y Maer y Parchedig Jeffrey Thomas fel ei Chaplan.

Llongyfarchwyd y Maer ar ei phenodiad gan y Cyngor.

**5. PENODI DIRPRWY FAER CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF AM FLWYDDYN 2017/2018 Y CYNGOR**

**PENDERFYNWYD** – penodi'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. yn Ddirprwy Faer y Fwrdeistref Sirol am Flwyddyn 2017-2018 y Cyngor.

Wrth benodi'r Dirprwy Faer, cyflwynodd y Maer Cadwyn ei Swydd iddo, ac fe'i llongyfarchwyd ar ei benodiad.

**6. BENDITH – Y PARCHEDIG JEFFREY THOMAS**

Galwodd y Mae ar y Parchedig Jeffrey Thomas i gynnig bendith.

**Nodyn:** Ar y pwynt yma yn y trafodion fe adawodd y Maer, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Tegg, y cyfarfod er mwyn rhoi sylw i'r gwesteion, a'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Powderhill, a gymerodd y Gadair.

**7. PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR**

**PENDERFYNWYD** – penodi'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Morgan yn Arweinydd y Cyngor, a bod y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber yn cael ei phenodi yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor.

Diolchodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Morgan i'r Aelodau am gefnogi'i benodiad, a dymunai hefyd nodi ar gof a chadw ei ddiolch i'r cyn-Gynghorydd Bwrdeistref Sirol Eudine Hanagan a oedd, yn ystod ei blynyddoedd yn y Cabinet, wedi wynebu llawer o heriau anodd. Roedd ei hymroddiad i'w gwaith yn adnabyddus gan iddi ofalu, hyd yn oed yn ystod cyfnodau o waeledd, ei bod yn cyflawni'i holl ddyletswyddau. Dymunai ddiolch i'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Mike Forey am y blynyddoedd yr oedd hwnnw wedi gwasanaethu yn y Cabinet, ac am y cymorth a roesai i Arweinwyr blaenorol yn ogystal ag iddo ef.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor hwn, er iddo orfod gwneud llawer o doriadau mewn gwasanaethau am fod y cyllid refeniw wedi cael ei ostwng dros y blynyddoedd diwethaf, wedi cael ei gydnabod gan Swyddfa Archwilio Cymru fel y Cyngor oedd yn gwella gyflymaf yn y wlad.

Diolchodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber i'r Cyngor am gefnogi'i phenodiad yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, gan nodi gymaint o fraint oedd cael ei phenodi, a'i hymrwymiad i roi cant y cant i'r swyddogaeth.

## **8. CYNLLUN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL YR ARWEINYDD**

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor ei Gabinet, yn cynnwys, a chael ei ffurfio a'i gyfansoddi gan, naw o Aelodau (gan ei gynnwys ef ei hun) a'u dynodiadau unigol, fel a ganlyn:-

- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber, Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor.
- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Robert Bevan, Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai
- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Crimmings, Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden
- Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion ac i Blant
- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. A. Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol
- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. Rosser, Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis, Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant
- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol C. Leyshon, Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc

Datganodd yr Arweinydd y câi'r Cynllun Swyddogaethau Gweithredol ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor maes o law.

## **ADRODDIADAU CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL**

### **9. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG WEDI'U CYNNIG I GYFANSODDIAD Y CYNGOR**

#### **PENDERFYNWYD -**

#### **1. Dyrannu Rhybuddion o Gynnig**

I ddyrannu'r 20 Rhybudd o Gynnig fel sy'n ofynnol o dan Reol Gweithdrefn y Cyngor 10.2(a) dros Flwyddyn 2017-18 y Cyngor fel a ganlyn:-

9 - Llafur

4 - Plaid Cymru

1 – i'r Blaid Geidwadol

1 i bob un o'r 'Aelodau heb eu Neilltuo' (x6)

2. Newidiadau Arfaethedig wedi'u Cynnig i Reolau Gweithdrefn y Cyngor.

Am y rhesymau fel y'u hamlinellwyd ym mharagraff 5.1 o'r adroddiad, i newid Rheol Gweithdrefn 9.4 y Cyngor, a Rheol Gweithdrefn 9.4(e) yn ychwanegol, fel a ganlyn:-

*Oni fydd Aelod yn bresennol mewn cyfarfod lle mae ganddyn nhw gwestiwn i'w ofyn ar yr agenda yn y cyfarfod perthnasol hwnnw, chaiff y cwestiwn mo'i ofyn a fydd dim ateb ysgrifenedig yn gorfod cael ei gyflwyno gan yr Aelod a oedd i ateb y cwestiwn.*

**Nodyn:** Dymunai'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. J. Powell drefnu cofnodi'r ffaith iddo bleidleisio yn erbyn y cynnig uchod, ac iddo bleidleisio o blaid y newidiad coll a ganlyn:

"Os nad yw'r person y gofynnir y cwestiwn iddo neu iddi yn bresennol yn y cyfarfod, yna bydd y cwestiwn yn cael ei osod yn y cyfarfod nesaf felly er mwyn rhoi cyfle i'r person gofyn cwestiwn atodol".

3. Am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraff 5.3 – 5.5 o'r adroddiad, i newid Rheol Gweithdrefn 10 y Cyngor ac, yn benodol, Rhybudd o Gynigion (Motions on Notice) Rheol 10.1 - Protocol fel a ganlyn:- (dangosir yr ychwanegiad arfaethedig) i'r rheol bresennol yn italic)

Protocol

Pan fydd Cynigion wedi'u cyflwyno o dan y Rheol 10 hon, ac wedi'u llofnodi gan fwy na dau o Aelodau, fe dybir taw'r ddwy lofnod a fo wedi'u rhestru yw rhai'r Cynigydd a'r Eilydd. Fe dybir fod Eilyddion i rybuddion o gynnig o dan y Rheol 10 hon wedi rhoi'u caniatâd i ddefnyddio'u henwau. *Rhaid peidio â chyfrif gweithred eilio rhybudd o gynnig gan Aelod yn erbyn Grŵp yr Eilydd neu, os yw ef neu hi heb ei neilltuo, yn erbyn ei ddyraniad neu'i dyraniad o gynigion a gytunwyd yn unol â Rheol 10.2(a).*

4. Newidiadau Arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu

Am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraff 6.1 o'r adroddiad, y Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu i gael eu newid er mwyn cyflwyno Rheol 17.1b newydd i'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal cyfarfodydd 'Galw i Mewn' fel a ganlyn:-

17.1b Gweithdrefn mewn cyfarfodydd Galw i Mewn wedi'u cynnal o dan Reol 17.1

(1) Datganiad o fuddiant (gan gynnwys datganiadaudan orchymyn chwip);

- (2) Croeso gan y Cadeirydd yn amlinellu'r rheswm am gyfarfod Galw i Mewn yn unol â'r manylion wedi'u cofnodi ar y ffurflen rhybudd Galw i Mewn.
- (3) Y Cadeirydd i wahodd y tri Aelod sydd wedi arwyddo'r ffurflen rhybudd o Alw i Mewn i gyflwyno'u hargymhelliad(au) i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ynghylch y rhesymau pam y maen nhw'n ystyried y dylid atgyfeirio'r penderfyniad perthnasol yn ôl i'r penderfynwr i'w ailystyried, gan roi sylw i'r rhesymau wedi'u nodi ar y ffurflen rhybudd o Alw i Mewn.
- (4) Y Cadeirydd i wahodd y Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwyr perthnasol i ymateb.
- (5) Y Cadeirydd i roi i unrhyw Aelod neu Aelodau o'r Cabinet sy'n bresennol y cyfle i annerch y Pwyllgor.
- (6) Y Cadeirydd i wahodd unrhyw Aelodau eraill o'r Pwyllgor i siarad (a, chyda chaniatâd y Cadeirydd, unrhyw Aelodau sy'n bresennol nad Aelodau o'r Pwyllgor mohonyn nhw os ydyn nhw'n gymwys i ymbresenoli ac yn dymuno siarad.
- (7) Os bydd angen hynny, y Cadeirydd i wahodd unrhyw Gyfarwyddwr neu Aelod o'r Cabinet sy'n bresennol i ymateb i gwestiwn un o'r Aelodau.
- (8) Y Cadeirydd i wahodd un o'r tri llofnodwr i'r Galw i Mewn i annerch am y tro olaf i aelodau o'r Pwyllgor.
- (9) Y Cadeirydd i roi'r fater i'r Bleidlais.
- (10) Swyddog Cyfreithiol sy'n bresennol i grynhoi effaith penderfyniad y Pwyllgor yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.1(e) a 17.1(f) ac wedyn rhoi gwybod am benderfyniad y Pwyllgor i'r Ysgrifenydd i'r Cabinet.

5. Am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraff 6.3 o'r adroddiad, i newid paragraff olaf Rheol Trosolwg a Chraffu 17.2(a) fel a ganlyn:-

Rhaid rhoi gwybod am penderfyniadau a gymerir fel mater o frys i'r Cyngor llawn ar gylch tri mis, ynghyd â rhesymau am i'r penderfyniad(au) fod o natur brys.

6. Pwyllgor Rheoli Datblygu - Newidiadau Arfaethedig

- 6.1 Am y rheswm a amlinellwyd ym mharagraff 7 o'r adroddiad, i ailenwi'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn Bwyllgor Cynllunio a Datblygu.
- 6.2 I nodi'r ddeddfwriaeth newydd sy'n rhagnodi gofynion sy'n ymwneud â maint a chyfansoddiad aelodaeth Pwyllgorau Cynllunio (ac is-bwyllgorau hefyd) Awdurdod Lleol yng Nghymru, ac yn benodol nad yw'r cyfryw Bwyllgorau i gynnwys lai nag 11 o Aelodau, na dim mwy na 21 o Aelodau, o'r Awdurdod. Mewn perthynas â'r Cyngor yma a wardiau aml-Aelod, dim ond un Aelod o'r ward sy'n gymwys i'w benodi i'r Pwyllgor Cynllunio (neu i unrhyw Is-bwyllgor).

- 6.3 Am y rheswm a amlinellwyd ym mharagraff 7.5 o'r adroddiad, i newid Rheol Gweithdrefn Cyngor 7 er mwyn adlewyrchu gofynion y ddeddfwriaeth newydd fel a ganlyn:-

Rheol Gweithdrefn Cyngor 7 - Cworwm (wedi'i diwygio fel y dangosir mewn llythrennau italig):

### **Cworwm**

*Ac eithrio i gyfarfodydd o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu/Cynllunio, a Datblygu un chwarter o nifer gyfan yr Aelodau fydd cworwm cyfarfod.*

Yn ystod unrhyw gyfarfod, os bydd y Maer yn cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Caiff gweddill y busnes sydd i ddilyn ei ystyried ar amser a dyddiad a bennir gan y Maer neu Gadeirydd. Os nad yw ef neu hi yn pennu dyddiad, caiff y busnes sy'n weddill ei ystyried yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

Os yw Aelod ar Absenoldeb Teuluol, ac y byddai yn anodd i gymryd lle'r Aelod hwnnw dros dro, fe gaiff y Maer wneud cais i'r Aelod hwnnw ddod i gyfarfod pe bai'r cyfarfod fel arall heb gworwm.

*Rhaid peidio â chynnal unrhyw fusnes mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu/Cynllunio a Datblygu oni bai fod hanner o leiaf o Aelodau o'r Pwyllgor, wedi'i thalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, yn bresennol.*

- 6.4 I nodi'r gofynion deddfwriaethol newydd sy'n gwahardd yn ddiamwys ddefnyddio Aelodau Dirprwy yn absenoldeb Aelodau a benodwyd ar Bwyllgorau Cynllunio, a bod y gofyniad hwn eisoes wedi'i ymgorffori yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor drwy'r Rheol Gweithdrefn 22 bresennol sy'n bodoli - 'Penodi Aelodau Dirprwy i rai Pwyllgorau penodol'.

**Nodwyd:** Yn unol â Chofnod 99(1) o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar yr 11eg Ionawr 2017, dyw Penodi Aelodau Dirprwy ddim yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonay gan fod hawl penodi Aelodau wrth gefn.

## 7. Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio

Am y rheswm a amlinellwyd ym mharagraffau 8.2 ac 8.3 o'r adroddiad, fod Mr. Roger Hull yn cael ei ailbenodi yn Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio am gyfnod pellach mewn swydd tan etholiadau nesaf y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

8. Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, yn newid Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn adlewyrchu'r newidiadau gofynnol, fel y nodwyd uchod, ac i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol.

**10. MATER BRYG – NEWID YN NHREFN YR AGENDA  
PENODI PWYLLGORAU, ADOLYGU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A  
PHENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION AR GYFER  
BLWYDDYN 2017/18 Y CYNGOR**

Gyda chaniatâd yr Aelod sy'n Ymddeol, rhoes yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad brys a gawsai ei gylchredeg yn ddiweddar, yn dilyn rhoi rhybudd i'r Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol fod â pŵer gwleidyddol newydd, sef y Gŵp Ceidwadol, wedi cael ei ffurfio, yn cynnwys dim ond pedwar Aelod yn unig, a oedd o ganlyniad yn effeithio ar Gydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor.

Oherwydd y newidiadau canlyniadol, roedd yr adroddiad brys yn ymgorffori **Eitemau Agenda 7, 10, ac 11** fel y'u diwygiwyd ac fel y cytunwyd isod.

Yn dilyn trafodaeth ar adroddiad brys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, **PENDERFYNWYD** -

1. Penodi Pwyllgorau

1.1 I gymeradwyo'r Pwyllgorau a grybwyllwyd isod ar gyfer Blwyddyn 2017/18 y Cyngor:-

- Pwyllgor Cynllunio a Datblygu (11 o Aelodau)
- Pwyllgor Trwyddedu (11 o Aelodau)
- Pwyllgor Penodiadau (5 o Aelodau)
- Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / neu Apeliadau Prif Swyddogion (5 o Aelodau)
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (11 o Aelodau)
- Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad (11 o Aelodau)
- Pwyllgor Craffu – Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau, a Ffyniant (11 o Aelodau)
- Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifanc (11 o Aelodau) ynghyd â Chyfetholedigion Statudol
- Pwyllgor Craffu – Iechyd, a Llesiant (11 o Aelodau)
- Pwyllgor Archwilio (11 o Aelodau ynghyd ag 1 Aelod Lleyg)
- Pwyllgor Gwasanaethau Llywodraethol (11 o Aelodau)
- Pwyllgor Llywodraethu Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyfansoddiad (8 o Aelodau)
- Pwyllgor y Gronfa Bensiwn (5 o Aelodau)



1.2 I benodi 5 o Aelodau i Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, y mae'i Aelodau i'w enwebu o Bwyllgor Trosolw a Chraffu'r Cyngor.

## 2. Cydbwysedd Gwleidyddol

2.1 Bod y cynllun ar gyfer dyrannu seddau i'r gwahanol grwpiau a chyrrff gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddynt, fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn cael ei fabwysiadu;

2.2 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yn cael ei awdurdodi i wneud penodiadau i gyrff gwleidyddol gytbwys wrth iddo fel Swyddog Priodol dderbyn rhybudd o ddymuniadau'r grwpiau gwleidyddol yn amodol, yn achos ceisiadau dilynol am newid aelodaeth o Bwyllgorau ar ôl hynny, i'w hatgyfeirio i'r Cyngor llawn;

2.3 I nodi nad yw Aelodau o'r Cabinet ddim yn gymwys i'w penodi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu neu i'r Pwyllgorau Craffu;

2.4 I nodi y caiff un Aelod o leiaf o'r Cabinet eistedd ar y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Llywodraethol, ond fod Arweinydd y Cyngor wedi'i eithrio o'r swyddogaethau hyn.

## 3. Penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion

3.1 I benodi'r Aelodau canlynol i swyddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i'r Pwyllgorau fel y'u rhestrir isod:-

<b>Pwyllgor</b>	<b>Cadeirydd</b>	<b>Is-gadeirydd</b>
Cynllunio, Datblygu,	S. Rees	G. Caple
Trwyddedu	A. S. Fox	D. H. Williams
Penodiadau	C.J. Willis	M. Webber
Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / neu Apeliadau Prif Swyddogion	J. Bonetto	S. Pickering
Y Gronfa Bensiwn	M.A. Norris	R.W. Smith

3.2 I benodi'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.S. James yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Llywodraethol, a'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Llywodraethol yn unol â'r amodau a bennwyd, ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;

- 3.3 I nodi fod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, i'w benodi gan y Pwyllgor Archwilio;
- 3.4 I gytuno fod y cyfrifoldeb am benodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i'w ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio;
- 3.5 Bod penodi Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i'w ddyrannu i Grŵp Plaid Cymru;
- 3.6 Bod yr Aelodau canlynol, yn unol â'r enwebiadau a dderbynnir gan y Grwpiau Gwleidyddol priodol, i'w penodi yn Gadeiryddion i'r Pwyllgorau Craffu a grybwyllwyd isod, ynghyd â phenodi Isgadeiryddion a phenodi'r Cydlynnydd Craffu ar Gyflawniad:-

<b>Pwyllgor</b>	<b>Cadeirydd</b>	<b>Is-gadeirydd</b>
Trosolwg a Chraffu	L.M. Adams	G.P. Thomas
Arian. Cyllid a Chyflawniad	G.R. Davies	G. Holmes
Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau, a Ffyniant,	S. Bradwick	T. Williams
Plant a Phobl Ifanc	S. Rees-Owen	W. Lewis
Iechyd, a Llesiant	R. Yeo	J. Elliott
Cydlynnydd Craffu ar Gyflawniad	C.J. Willis	
Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf	J. Bonetto	I'w enwebu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

- 3.7 Nodi fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu, Corfforaethol a'r Cyfansoddiad i'w penodi, yn unol â'r penderfyniad a wnaethpwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 20fed Mai 2015, yn Faer ac yn Ddirprwy Faer, yn eu trefn.

## **11. AELODAETH O'R PWYLLGOR SAFONAU**

Yn ei adroddiad, fe hysbysodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol Aelodau nad yw'r Pwyllgor Safonau yn wleidyddol gytbwys, a'i fod yn cynnwys gan chwech o Aelodau - tri yn annibynnol, dau Gynghorydd Bwrdeistref Sirol, ac un Aelod o Gyngor Cymuned, sy'n cynrychioli pob un o'r holl Gynghorau Cymuned neu Dref yn Rhondda Cynon Taf. Er nad yw'r

Pwyllgor yn wleidyddol gytbwys, fe benodwyd y ddau Gyngorydd Bwrdeistref Sirol o'r grŵp mwyafrol ac o'r grŵp gwrthblaid mwyaf, ac fe awgrymwyd gan hynny barhau â'r arfer hwn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. I benodi'r Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M. Forey a'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol E. Webster i'r Pwyllgor Safonau, gyda'u cyfnodau mewn swydd yn dod i ben gyda'r etholiad Llywodraeth Leol nesaf;
2. Penodi Cyngorydd i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn cyflawni'r broses ymgynghori ofynnol, a bod y cyfnod mewn swydd yn dod i ben gyda'r etholiad Llywodraeth Leol nesaf.

## **12. CYRFF LLED-FARNWROL NEU BWYLLGORAU AD HOC**

Fe ofynnodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol am ystyriaeth y Cyngor parthed penodi Aelodau i eistedd ar y Pwyllgorau Lled-farnwrol neu Ad Hoc a restrir yn ei adroddiad, a chan hynny **PENDERFYNWYD –**

1. Penodi'r Aelodau a grybwyllwyd isod i'r Cyrff Lled-farnwrol neu Bwyllgorau Ad Hoc gwleidyddol gytbwys canlynol:-

**Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol (5 Aelod)**

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J. Brencher, M. Forey, C. Leyshon, S. Rees-Owen, J. Rosser.

**Panel Ymddeol Cynnar Gwirfoddol neu Ddileu Swyddi (5 Aelod)**

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J. Bonetto, S. Rees, W. Treeby, M. Weaver, ac M. Webber.

2. Penodi'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol A. Crimmings, R. Lewis, A. Morgan, ac M. Webber (4 aelod i'r **Cyd-bwyllgor Ymgynghorol** (nad yw'n wleidyddol gytbwys.)

## **CYD-ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL, A LLYWODRAETHOL A CHYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN**

### **13. CYFLOGAU A LWFANSAU NAWFED ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Yn eu cyd-adroddiad, fe hysbysodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiola Llywodraethol a Chyfarwyddwr Cyfadrannau y Gwasanaethau

Corfforaethol a Rheng Flaen yr Aelodau, gan roi gwybod iddynt beth yw'r sefyllfa bresennol ynghylch cyflogau a lwfansau fel ei gilydd Aelodau, yn dilyn cyhoeddi Nawfed Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, ceisiwyd cymeradwyaeth y Cyngor am gyflogau a lwfansau yr Aelodau ar gyfer Blwyddyn 2017-18 y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth ar y mater, **PENDERFYNWYD** –

1. I nodi'r sefyllfa bresennol o ran cyflogau a lwfansau Aelodau yn dilyn canfyddiadau'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn ei Nawfed Adroddiad Blynyddol.
2. I nodi penderfyniad Arweinydd y Cyngor o ran ar ba lefel y dylai Aelodau o'r Adain Weithredol (Cabinet) dderbyn tâl yn gydnabyddiaeth yn unol â'r bandiau taliadau i Aelodau o'r Adain Weithredol fel y nodwyd ym mharagraff 3.9 o'r adroddiad, hynny yw, Lefel 1 ar gyfer Aelodau o'r Adain Weithredol, a Lefel 2 ar gyfer Dirprwy Aelodau o'r Adain Weithredol.
3. Y dylai Cadeiryddion Pwyllgorau, yn unol â bandiau taliadau Cadeiryddion Pwyllgorau fel y nodwyd ym mharagraff 3.12 o'r adroddiad, dderbyn tâl ar Lefel 1.
4. Y dylai'r Maer a'r Dirprwy Faer, yn unol â'r bandiau taliadau fel y nodwyd ym mharagraff 3.16 o'r adroddiad, derbyn tâl ar Lefel 2.
5. I nodi'r swyddi cymwys canlynol sydd i ddenu Uwch Gyflog (hyd at uchafswm o 19) fel y dangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad:-
  - Arweinydd
  - Dirprwy Arweinydd
  - 5 o Aelodau Cabinet (Lefel 1)
  - 2 o Aelodau Cabinet (Lefel 2)
  - Arweinydd yr Wrthblaid (y Grŵp mwyaf)
  - 5 o Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu
  - Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Llywodraethol (Lefel 2)
  - Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu (Lefel 1)
  - Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu (Lefel 1)
6. Bod y 18 swydd fel y dangosir yn Atodiad 2 i'r adroddiad yn cael eu talu Uwch Gyflog i'r Lefel fel y dangosir yn 5 uchod (hynny yw, Lefel 1 a Lefel 2, ac i nodi y bydd y swydd, os na fydd y Pwyllgor Archwilio yn penodi'r Aelod Lleyg yn Gadeirydd, yn dal yn swydd ddigyflog o hyd.
7. I gytuno parhau i gapio taliadau i Aelodau cyfetholedig ar y lefel uchaf o'r cyfwerth cyfatebol o 10 niwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob Pwyllgor y caiff unigolyn gael ei gyfethol a'i fod ef neu hi yn gymwys i ymbresenoli.

8. I gytuno na ddylai Aelodau sy'n ymgymryd â dyletswyddau etholaeth gael eu cynnwys fel dyletswydd gymeradwy i ac at ddiben hawlio lwfansau teithio;
9. I ailgadarnhau na ddylai hawliadau am gynhaliaeth ar gyfer busnes swyddogol sy'n digwydd yn Rhondda Cynon Taf gael eu had-dalu gan y Cyngor.
10. I nodi gofynion cyhoedduswydd yr Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol y bydd raid i'r Cyngor ymgymryd â nhw o ran y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r tâl a dderbynnir gan Aelodau yn ystod Blwyddyn y Cyngor.
11. I benderfynu, yn unol â pharagraff 3.35 o'r adroddiad, y dylid rhoi cyhoedduswydd i ad-dalu costau gofal i unrhyw Aelod, ond na ddylid enwi'r unigolyn dan sylw.
12. I gytuno i dalu cyflog i Gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, yn unol â'r meini prawf wedi'u nodi ym mharagraff 3.45(I).
13. I nodi y bydd y taliadau uchod, yn c amodol ar fod yr unigolion dan sylw wedi llofnodi eu Datganiadau Derbyn Swydd, yn cael eu talu gan weithredu yn effeithiol o'r 8<sup>fed</sup> Mai, 2017.

## **ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL**

### **14. CALENDR CYFARFODYDD**

Yn unol â Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor (Rheolau Gweithdrefn y Cyngor), fe atododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol i'w adroddiad Galendr Cyfarfodydd) arfaethedig ar gyfer Blwyddyn 2017/18 y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. I nodi cynnwys yr adroddiad;
2. I gytuno'r Calendr Cyfarfodydd cychwynnol arfaethedig ar gyfer Blwyddyn 2017/18 y Cyngor Blwyddyn 2017/18 y Cyngor, yn amodol ar wneud newidiadau yn y Cyfarfod mewn perthynas â chyfnodau tymor yr ysgol.

### **15. PENODIADAU I GYD-BWYLLGORAU ANWEITHREDOL 2017-2018**

**PENDERFYNWYD** – y dylid penodi'r Aelodau a grybwyllir isod i'r Cyd-bwyllgorau anweithredol canlynol ar gyfer Blwyddyn 2017-2018 y Cyngor:-

- (a) **Awdurdod Cyfun Gwasanaeth Tân De Cymru** (4 Aelod)  
Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol S. Bradwick, S. Pickering, A. Roberts,  
ac G. Stacey.
- (b) **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** – (1 Aelod)  
Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G.P. Thomas

**16. PENODIADAU I BANEL YR HEDDLU A THROSEDDU 2017/2018**

**PENDERFYNWYD** – y dylid penodi'r Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol R. Lewis ac R.W. Smith i Banel yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Blwyddyn 2017-2018 y Cyngor.

**17. PENODIADAU I GYNGOR IECHYD CYMUNEDOL CWM TAF**

**PENDERFYNWYD** – y dylid penodi'r Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol J. Bonetto, G. Caple, ac S. Morgans i Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf am gyfnod o bedair blynedd.

**18. PENODIADAU I GYRFF ALLANOL**

**PENDERFYNWYD** - y dylid penodi'r Aelodau a a grybwyllir isod i'r Cyrff Allanol canlynol:-

**Cyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes**

- 1. **Cydbwyllgor Addysg Cymru (cyfnod o bedair blynedd)**  
Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J. Rosser
- 2. **Bwrdd Llywodraethwyr - Coleg y Cymoedd (cyfnod o bedair blynedd)**  
Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J. Rosser a Mr C. Bradshaw
- 3. **Cyngor Llyfrau Cymru (cyfnod o dair blynedd)**  
Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis

**Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng flaen**

- 4. **Cyfungorff Awdurdodau Lleol Cymru (CALIC) (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol C. Leyshon
- 5. **Business in Focus (cyfnod o dair blynedd)**  
Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R. Bevan
- 6. **Cyngor Cyswllt Cymru (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol M. Webber a D. H. Williams

7. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol R. Bevan, G. Hopkins, A. Morgan, J. Rosser, ac M. Webber.
8. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Bwrdd Gweithredol (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol A. Morgan ac M. Webber (Dirprwy)
9. **Bwrdd Canolfan Cydweithredol Cymru (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis
10. **Elusen Edward Thomas (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol A. S. Fox, E. George, R. Lewis, ac S. Pickering.
11. **Y Gynghrair (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J. Brencher, G. Jones, a G. Thomas
12. **Pwyllgor Ymgysylltu Safle Glofa'r Tŵr (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol H. Boggis a G.P. Thomas
13. **Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru (cyfnod o bedair blynedd)**  
Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. Harries.
14. **Fforwm Economaidd De Cymru (cyfnod o bedair blynedd)**  
Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Bevan
15. **Judges Hall Trust (cyfnod o bedair blynedd)**  
Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol G. Hughes, W. Lewis, a J. Rosser
16. **Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (cyfnod o bedair blynedd)**  
Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis
17. **Cymdeithas Rhandiroedd (cyfnod o bedair blynedd)**  
Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Bradwick
18. **Tribiwnlys Prisio Cymru - Panel Penodiadau (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber

#### **Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant**

19. **Cist Gymunedol (Cyfnod o dair blynedd)**  
Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol: J. Bonetto, A. Crimmings, a J. Harries
20. **Age Concern Cymru (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Cynghorydd Bwrdeistref Sirol C. Leyshon
21. **Pwyllgor Bowlio Dan Do Cwm Cynon**  
Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Morgan

22. **Pwyllgor Gwaith Celfyddydau yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf (Cyfnod o un Flwyddyn)**  
Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis
23. **Trivallis (Cartrefi RhCT gynt) (Cyfnod o dair blynedd)**  
Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol R. Bevan, M. Griffiths. a S. Pickering a P. Mee (Swyddog).

19. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU 2016-2017**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L.M. Adams, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg, a Chraffu, yr Adroddiad Blynyddol Craffu ar gyfer 2016-17, gan amlinellu 'r gwaith a wneir o fewn maes craffu yn ystod y 12 mis diwethaf ac, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** - i nodi'r adroddiad.

**R. LEWIS**  
Maer sy'n Gadael y Swydd

**M. TEGG**  
Maer

**S. POWDERHILL**  
Dirprwy Faer

Daeth y cyfarfod i ben am 6.27p.m.